

Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan

Bu'r rhan fwyaf o'r flwyddyn yn gyfnod heriol i bawb, oherwydd y pla COVID-19. Bu tudalennau gwefan Clwb Mynyddda Cymru, yn ogystal a thudalennau *Facebook* y clwb yn gyfrwng i gadw mewn cysylltiad cyson â'r aelodaeth ac yn fodd i gyfleu'r sefyllfa gyfredol o wythnos i wythnos. Bu ymgais i ddiweddarau'r cynnwys mor gyson ag oedd yn bosib.

Mae'r mynediad rhwydd i dudalennau gwefan y clwb drwy gyfrwng yr "ap" ar gyfer llwyfannau *Android* ac *iOS*, a ddarparwyd gan Rhys Jones, yn parhau'n boblogaidd

Dengys data *Google Analytics* fod tua 9,600 o sesiynau wedi eu cynnal ar ein gwefan yn ystod y flwyddyn gan tua rhwng 400 ac 800 o ddefnyddwyr rheolaidd (50:50, merched a dynion) o 47 o wledydd – er yn bennaf o Gymru. Bu bron i 8,000 o ymweliadau â thudalen hanesion teithiau a tua 5,200 ymweliad â thudalen y rhaglen gweithgareddau. Ychydig dros 1,500 ymweliad gafod ein tudalen newyddion a 430 oedd â diddordeb mewn ymaelodi. Ar y cyfan, yn syndod o brysur o ystyried na fu gweithgareddau rhwng mis Mawrth a Medi. O ran y llwyfannau a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr, defnyddiwyd cyfrifiaduron (41%) [*PC* 25%; *Mac* 12%] yn ogystal â ffonau clyfar (43%) a phadau/llechi (16%) [*Android* 20%; *iOS* 38%]. Felly, mae'n dal yn bwysig sicrhau fod ein gwefan i fod yn gydnaws â'r holl llwyfannau poblogaidd.

Roedd defnydd *Facebook* (FB) wedi cynyddu (ein grŵp ein hunain). Tua 750 yn dilyn ein tudalen yn rheolaidd, gyda thrawstoriad gweddol gyson o ran oedran. Derbyniwyd nifer o negeseuon yn holi am wybodaeth hefyd. Cysylltwyd y dudalen gyda thudalen *Galwad Cynnar* hefyd ers mis Medi 2020.

Cyhoeddir pob taith ar *Facebook*, yn ogystal â hanes efo lluniau. Cedwir yr holl luniau ar gyfrif *Flickr Pro* arbennig (rhaid talu ffi blynyddol am hwn) – mae dros 7,000 o luniau gweithgareddau'r clwb arno bellach.

Cyhoeddir teithiau a rhai cyhoeddiadau hefyd ar *Trydar* (ond nid yw mor boblogaidd a *Facebook*) – yn ogystal ag e-bost uniongyrchol gan yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Diolch i bawb a ddarparodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn i gadw'r cofnod arbennig o hanesion Clwb Mynyddda Cymru'n fyw.

Iolo ap Gwynn 31/10/2020